

# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**  
**Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA**  
**Dydd Llun, 13eg Hydref, 2025, 10.00 am**

## **Cynghorwyr yn Bresennol**

Cynghorydd Sir Armand Watts (Cadeirydd)

Cynghorydd Sir: Jill Bond, Steven Garratt, Meirion Howells, Penny Jones, Tony Kear, Malcolm Lane, Dale Rooke, Frances Taylor, Armand Watts, Ian Chandler, Jackie Strong, Peter Strong

## **Swyddogion yn Bresennol**

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Sharran Lloyd, Rheolwr Datblygu Bwrdd  
Gwasanaethau Lleol  
Amy Thomas, Regional Lead Advisor for Gwent  
Violence Against Women Domestic Abuse and  
Sexual Violence Team

Ymddiheuriadau: Dim

### **1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Dim.

### **2. Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

### **3. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Neb o'r cyhoedd yn bresennol.

### **4. Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Asesu sut mae'r trefniadau rhanbarthol dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cefnogi'r cyngor wrth gyflawni amcanion y Ddeddf.**

Eglurodd swyddogion fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut mae'r strategaeth ranbarthol yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni amcanion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Gofynnwyd i'r pwyllgor graffu ar y trefniadau hyn a rhoi adborth.

Disgrifiodd Sharran yr esblygiad o drefniadau lleol i drefniadau rhanbarthol yng Ngwent, gan dynnu sylw at sefydlu bwrdd rhanbarthol i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau cymorth a lleihau effeithiau loteri cod post. Mae strategaeth Gwent yn cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol ac mae disgwyl iddi gael ei hadolygu y flwyddyn nesaf. Amlinellodd strwythur helaeth y bwrdd a'r is-grŵp, gan nodi'r diffyg mecanweithiau ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, ond sicrhodd fod ymdrechion ar y gweill i gryfhau'r cysylltiadau hyn. Mae Sir Fynwy yn aelod gweithgar, sy'n elwa o adnoddau, cyllid ac arbenigedd a rennir.

Tynnodd Sharran sylw at y canlyniadau cadarnhaol, sy'n cynnwys hyfforddiant staff gorfodol, gwasanaethau Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol rhanbarthol, a rhaglenni addysg / atal fel Spectrum. Mae heriau'n cynnwys casglu data, hygyrchedd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, bylchau gwasanaeth (e.e. ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a'r rhai sydd heb ddefnyddio arian cyhoeddus), dyrannu adnoddau, a chyfathrebu.

Cyflwynodd Sharran gyflwyniad sy'n ymdrin â llywodraethu strategol, integreiddio, monitro, heriau data, a manteision i Sir Fynwy o gomisiynu rhanbarthol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio, rôl is-grwpiau, a'r angen am fecanweithiau data a chyfathrebu gwell.

Manylodd Amy ar strwythur a mecanweithiau cymorth y tîm rhanbarthol, gan gynnwys adnoddau cyfunol, arbenigedd arbenigol, a chyllid rhanbarthol. Tynnodd sylw at hyfforddiant statudol ac arbenigol (Gofyn a Gweithredu), prosiectau cydweithredol, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

Trafododd Amy'r rhaglen Spectrum ar gyfer ysgolion, cefnogaeth wedi'i dargedu i gymunedau amrywiol a gwledig, a hyfforddiant diweddar i staff ar gefnogi dioddefwyr heb ddefnyddio arian cyhoeddus. Nododd bresenoldeb cyngorwyr arbenigol ar gyfer pobl hŷn a'r rhai mewn lleoliadau iechyd.

Cydnabu Amy'r heriau parhaus gyda chasglu data ac asesiadau anghenion, dibyniaeth ar ddata heddlu/prawf, a natur adnoddau dwys asesiadau cynhwysfawr. Mae'r dull rhanbarthol yn galluogi asesiadau anghenion thematig a chroesgyfeirio â dyletswyddau eraill (e.e. trais difrifol).

Galwodd y ddau swyddog am well casglu data, gwell hyfforddiant, mwy o ymgysylltu â'r gymuned, adolygiadau cynnydd rheolaidd, a chydweithredu dyfnach i sicrhau cefnogaeth effeithiol i ddioddefwyr ac effaith barhaus ar y strategaeth.

### **Cwestiynau gan yr Aelodau:**

- Gofynnodd y Cynghorydd Bond sut mae'r trefniadau rhanbarthol yn mesur effaith ac a ydynt yn addas i'r diben, o ystyried y diffyg data cynhwysfawr dros y blynyddoedd.

*Atebodd Amy fod Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn 10 mlwydd oed a bod mesur effaith wedi bod yn heriol oherwydd anghenion esblygol, COVID, a dibyniaeth ar ddata heddlu/prawf. Dywedodd fod y trefniadau rhanbarthol yn addas i'r diben ac yn darparu mynediad i Sir Fynwy at wasanaethau ac arbenigedd arbenigol, fel y tîm Cyngorwyr Trais Domestig Annibynnol rhanbarthol.*

- Holodd y Cynghorydd Bond hefyd y manteision diriaethol i drigolion Sir Fynwy a sut mae atebolrwydd lleol yn cael ei gefnogi, gan ofyn beth yw'r enillion ar fuddsoddiad i Sir Fynwy, ac a yw aelodau'r bwrdd yn cael eu talu, ac a oes angen mwy o adnoddau lleol i fynd i'r afael â bylchau data.

*Cyngorodd Amy nad yw aelodau'r bwrdd yn cael eu talu; maent yn cymryd rhan ar ben eu rolau rheolaidd. Y cadeirydd yw'r cyfarwyddwr strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghasnewydd, ac mae Sharran yn cynrychioli Sir Fynwy.*

*Roedd hi'n cydnabod bod diffyg adnodd dadansoddwr data pwrpasol; mae dadansoddiad data cyfredol yn dibynnu ar sefydliadau partner, yn enwedig iechyd y cyhoedd. Mae angen mwy o adnoddau ar gyfer dehongli data ystyrlon. Esboniodd fod y dull rhanbarthol i ddioddefwyr yn golygu llwybrau mwy cadarn, cydweithredu agosach, a mynediad di-dor at wasanaethau, waeth ble maent yn cyflwyno.*

- Mynegodd y Cyngorydd Jones bryder am atebolrwydd a llywodraethu, gan nodi siom nad oedd cadeirydd y bwrdd yn mynychu'r pwyllgor. Gofynnodd am y rhaglen Spectrum: a yw'n ehangu, faint o ysgolion sy'n cymryd rhan, a pham ei bod yn targedu blynyddoedd 2, 5 a 9 yn unig, gan fynegi'r farn y dylid blaenoriaethu myfyrwyr hŷn (blynyddoedd 12 a 13) hefyd.

*Eglurodd Amy fod Spectrum yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac wedi newid yn ddiweddar i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn derbyn darpariaeth ar gyfer blynyddoedd 2, 5 a 9 o leiaf, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol ar gael ar gais gan ysgolion. Yn flaenorol, roedd darpariaeth yn dibynnu ar geisiadau ysgolion, gan arwain at sylw anghyson.*

*Ar gyfer myfyrwyr hŷn, nododd Amy fod yna raglenni cymunedol eraill a mentrau a ariennir gan grant (fel Grymuso'r Dyfodol) i gwmpasu'r rhai nad ydynt wedi'u cyrraedd gan Spectrum, a bod gan ysgolion bellach gynghorydd pwrrpasol i gefnogi cyflawni'r cwricwlwm addysg perthnasodd a rhywioldeb.*

*Cadarnhaodd Amy y bydd pob ysgol nawr yn derbyn darpariaeth Spectrum, gan fynd i'r afael ag anghysondebau blaenorol.*

*Ychwanegodd y Cyngorydd Jones y gallai plant gwledig golli rhai rhaglenni cymunedol ond cafodd ei sicrhau gan y ddarpariaeth ysgol gyffredinol.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Kear am rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn y bwrdd partneriaeth, o ystyried ei ffocws ar amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

*Cynghorodd Amy fod y Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a bod cydweithrediad cryf â swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd a chynllunio ar y cyd ar gyfer cyllid a chyflawni prosiectau.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Kear am eglurhad ar sut mae'r bartneriaeth yn cysylltu â Heddlu Gwent, yn enwedig o ran argaeledd a defnyddio data troseddau manwl ar gyfer Sir Fynwy.

*Dywedodd Sharran fod Heddlu Gwent yn darparu data manwl, sef y brif ffynhonnell leol, ond mae heriau'n parhau o ran dadansoddi a chyd-destunoli'r data hwn ar gyfer Sir Fynwy oherwydd capasiti dadansoddol cyfyngedig. Mae'r tîm yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus i wella hyn.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Kear hefyd pa waith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â thrais yn erbyn dynion, nid menywod a merched yn unig.

*Eglurodd Amy fod yr holl wasanaethau yng Ngwent yn agored i ddioddefwyr gwrywaidd, ac mae ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod dynion yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u cynrychioli mewn cyfathrebu a mynediad i wasanaethau, er gwaethaf yr iaith ddeddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar fenywod a merched. Cadarnhaodd fod ymgyrchoedd ac adnoddau wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol o ddynion, ac mae gwaith diweddar wedi ymgysylltu yn benodol â dynion a bechgyn ifanc.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Garratt a oes unrhyw waith yn cael ei wneud i fesur effeithiolrwydd allgymorth i ysgolion a'r gymuned, yn benodol a oes cyfweiliadau dilynol, arolygon, neu werthusiadau gyda goroeswyr i asesu a yw negeseuon wedi eu harwain i ddefnyddio gwasanaethau.

*Esboniodd Amy, yn ystod digwyddiadau ymwybyddiaeth y cyhoedd, bod cardiau adborth yn cael eu casglu a'u hadolygu i lywio ymgyrchoedd yn y dyfodol. Er enghraifft, arweiniodd adborth o ddigwyddiad Cil-y-coed at negeseuon cliriach am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr ac unigolion pryderus.*

- Gofynnodd y Cynghorydd Garratt a yw'r hyrwyddo a'r hyfforddiant yn cael eu monitro ar gyfer effeithiolrwydd ac a yw adborth yn cael ei ddefnyddio i wella allgymorth yn y dyfodol.

*Ychwanegodd Amy fod pob gwasanaeth sector arbenigol yn cynnal arolygon ymadael gyda goroeswyr cyn cau achosion, gan gwmpasu effeithiolrwydd gwasanaethau, cynhwysiant, ac agweddau ymarferol. Gwahoddir goroeswyr hefyd i ymuno â fforymau i ddarparu adborth parhaus ar gyfer gwelliant parhaus.*

- Gofynnodd y Cynghorydd Rooke sut mae anghenion lleol yn cael eu deall a'u blaenoriaethu yn absenoldeb data cadarn.

*Roedd Sharran yn cydnabod yr anhawster o ran datblygu data sylfaenol ar gyfer Sir Fynwy ac esboniodd fod darparu gwasanaethau presennol yn dibynnu ar alw gweladwy a phwyntiau pwysau, gydag ymdrechion yn parhau i wella dadansoddi data ar gyfer targedu adnoddau mwy effeithiol.*

- Gofynnodd y Cynghorydd Rooke hefyd a oes digon o adnoddau a chapasiti yn Sir Fynwy, yn enwedig ar ôl colli'r cydlynnydd cam-drin domestig lleol.

*Dywedodd Sharran fod colli cydlynnydd pwrpasol yn effeithio ar gapasiti, ond nawr mae'r cyfrifoldeb yn cael ei ddosbarthu ar draws sawl adran, gan ymgorffori cam-drin domestig yn fwy mewn busnes fel arfer, er nad yw'n disodli manteision swydd bwrpasol yn llawn. Ychwanegodd Amy fod yr integreiddio hwn yn golygu bod ystod ehangach o staff bellach yn rhan o'r strwythurau rhanbarthol.*

- Rhannodd y Cynghorydd Howells wybodaeth am wasanaeth blynyddol "Goleuo Cannwyll" ym Mrynbuga yn Eglwys y Santes Fair, a drefnwyd gan Sefydliad y Merched, i nodi'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Menywod. Soniodd am orymdaith faner, stondinau, siaradwyr gwadd, a gwahoddiad i ddynion gymryd rhan. Mynegodd hefyd werthfawrogiad am hyfforddiant cynghorwyr sydd ar ddod ar y pwnc.

*Cadarnhaodd Amy fod trefnwyr y digwyddiad wedi cysylltu â'r tîm rhanbarthol, a byddai'r digwyddiad yn cael ei hyrwyddo trwy eu grŵp cyfathrebu ymgyrchu a'i gynnwys mewn bwletin a anfonwyd at weithwyr proffesiynol ledled y rhanbarth.*

- Tynnodd y Cynghorydd Jackie Strong sylw at fater trais yn erbyn menywod hŷn, gan rannu bod y fenyw hynaf a dderbyniwyd i loches yn ei 90au, gan bwysleisio bregusrwydd menywod hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Nododd effaith sylweddol COVID-19 ar allu dioddefwyr i geisio help. Soniodd Jackie hefyd am glywed beirniadaeth am effeithiolrwydd y broses MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth), gan gyfeirio at achos lle roedd teulu yn teimlo nad oedd yn gweithio fel y bwriadwyd. Anogodd gefnogaeth barhaus, mwy o adnoddau, ac adborth gan oroeswyr ac eraill i wella gwasanaethau.
- Nododd y Cynghorydd Peter Strong bwysigrwydd profiad proffesiynol wrth ddeall tueddiadau cam-drin domestig, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau data. Dywedodd ei fod o'r farn bod rhai ardaloedd o Gwent yn ymddangos bod achosion cam-drin domestig

mwy difrifol yn cyrraedd y llys, a chwestiynodd a yw hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol, cyfraddau adrodd, neu ffactorau eraill.

*Esboniodd Amy nad oes tystiolaeth benodol bod gan unrhyw ardal Gwent fwy o achosion yn mynd i'r llys; gall adrodd a chyfeirio at y llys amrywio'n fawr yn seiliedig ar amgylchiadau unigol.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Peter Strong a ellid priodoli gwahaniaethau mewn adroddiadau neu ganlyniadau achosion i amrywiadau rhanbarthol a gofynnodd am safbwynt Amy yn seiliedig ar ei phrofiad.

*Disgrifiodd Amy'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr trwy wasanaethau'r heddlu ac eiriolaeth, a nododd fod rhesymau dros adrodd neu dynnu'n ôl o'r broses gyfiawnder yn gymhleth ac amrywiol. Amlinellodd fecanweithiau sydd ar waith i olrhain cyfraddau lleihau yn y broses cyfiawnder troseddol a thynnodd sylw at fesurau arbennig i gefnogi dioddefwyr yn y llys. Pwysleisiodd Amy fod pob dioddefwr yn derbyn ymateb wedi'i deilwra, a bod llawer o achosion cam-drin yn parhau heb eu hadrodd, gan ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau pendant o'r data sydd ar gael.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Bond sut mae'r cynnydd a adroddwyd mewn iaith ac ymddygiad gwreig-gasineb mewn ysgolion (fel yr hysbyswyd gan y Gyfarwyddiaeth Addysg) yn cael ei datrys, ac a yw hyn yn llywio cyfeiriad y rhaglen Spectrum ar gyfer atal cynnar.

*Esboniodd Amy fod Spectrum yn cyflwyno sesiynau wedi'u mapio i'r cwricwlwm, gan ganolbwyntio ar niwed ar-lein, meithrin perthynas amhriodol, secstio, a materion cysylltiedig, ond heb dargedu gwreig-gasineb yn uniongyrchol; fodd bynnag, mae cyngorwyr newydd AVECS Cwtch a'r prosiect Grymuso'r Dyfodol yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael ag ymddygiadau gwreig-gasineb a hyrwyddo perthnasoedd iach, yn enwedig ymhlith bechgyn a dynion ifanc. Cyfeiriodd hefyd at fudiad byd-eang, "She Is Not Your Rehab," sy'n cael ei gyflwyno'n lleol i newid diwylliant.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Bond am eglurhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Sir Fynwy, o ystyried bod yr agenda bellach wedi'i hymgorffori ar draws pob cyfarwyddiaeth.

*Eglurodd Sharran fod y cyfrifoldeb o dan y Ddeddf yn ffurfiol gyda phrif weithredwr yr awdurdod perthnasol, ond yn ymarferol, mae'r prif swyddog (Matt Gatehouse) a hi ei hun (fel yr arweinydd enwebedig) yn cydlynu'r agenda yn Sir Fynwy.*

- Gofynnodd y Cyngorydd Watts sut y gall Sir Fynwy fod yn sicr ei bod wedi mabwysiadu'r diwylliant arfaethedig ynghylch cam-drin domestig ar ôl colli'r cydlynnydd ymroddedig, ac a yw staff ar draws pob cyfarwyddiaeth yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol.

*Esboniodd Sharran fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn sicrhau cyfranogiad aml-asiantaeth, gyda'r holl gyfarwyddiaethau perthnasol yn ymgysylltu, ond cydnabu bod y dull ar hyn o bryd yn fwy adweithiol na rhagweithiol oherwydd cyfyngiadau data. Cadarnhaodd fod hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer staff, gyda thua 80% wedi'i gwblhau, ac ymrwymodd i rannu'r ffigurau diweddaraf gyda'r aelodau.*

- Cwestiynodd y Cyngorydd Watts pa fanteision diriaethol y mae Sir Fynwy yn eu cael o'r trefniadau rhanbarthol, o ystyried y diffyg data cynhwysfawr ac adnoddau arbenigol

cyfyngedig a gofynnodd am fanylion ar hyfforddiant staff a chyfranogiad ysgolion yn y rhaglen Spectrum.

Rhestrodd Amy fanteision diriaethol: darparu hyfforddiant statudol, hyfforddiant arbenigol, cydlynu partneriaeth, ac adnoddau rhanbarthol cyfunol. Nododd, er bod y tîm rhanbarthol yn darparu arbenigedd a chefnogaeth, mae'r diffyg dangosfwrdd data cynhwysfawr yn fater ledled Cymru, nid yn unigryw i Sir Fynwy. Cadarnhaodd mai dim ond tair ysgol (dw ysgol gynradd, un ysgol gyfun) sydd wedi derbyn sesiynau Spectrum hyd yn hyn, sy'n cwmpasu 354 o ddisgyblion ac 20 o athrawon, ac fe wnaeth hi gydnabod bod ffordd bell i fynd i gael sylw llawn.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i Amy am fynychu ac ateb cwestiynau'r Aelodau a diolchodd i Sharran am lunio'r adroddiad cynnydd. Cytunodd y Pwyllgor i drefnu diweddariadau cynnydd pellach o fewn eu blaenraglen waith, ond cytunodd y byddai'r camau canlynol yn cael eu gofyn gan swyddogion pan fydd y pwnc yn dychwelyd i graffu:

- Mae'r Aelodau'n gofyn bod diweddariadau dilynol yn darparu tystiolaeth gliriach o'r effaith, gan gynnwys dangosfwrdd data rhanbarthol a lleol cyson (sy'n cwmpasu'r galw, canlyniadau, cydraddoldeb mynediad a chyrhaeddiad gwledig), llinellau atebolrwydd cliriach rhwng y Bwrdd Partneriaeth, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Cyngor, ac adroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth hyfforddiant a chwmpas rhaglenni Spectrum.
- Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i adroddiadau yn y dyfodol nodi gofynion adnoddau (gan gynnwys gallu dadansodol), cynnydd yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt gydag amserlenni, a sut mae adborth goroeswyr a chymunedau yn cael ei ddal a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau.

### **5. Blaenraglen Gwaith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Nodwyd y flaenraglen waith.

### **6. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.**

Nodwyd.

### **7. Cadarnhau'r cofnodion canlynol:**

Cafodd cofnodion y 7<sup>fed</sup> Gorffennaf 2025 eu cytuno fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

### **8. Cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth 28 Hydref am 10.00am (Cyfarfod Arbennig).**

**Rhestr Weithredu:**

| Nifer | Cam Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Cyfrifoldeb                        | Amserlen                                  |
|-------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-------------------------------------------|
| 1     | <p><b>Craffu ar waith y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015</b></p> <p>Mae'r Aelodau'n gofyn bod diweddariadau dilynol yn darparu tystiolaeth gliriach o'r effaith, gan gynnwys dangosfwrdd data rhanbarthol a lleol cyson (sy'n cwmpasu'r galw, canlyniadau,</p> | <p>Sharran Lloyd ac Amy Thomas</p> | <p>Diweddariadau Cynnydd yn y Dyfodol</p> |

|  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |  |
|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
|  | <p>cydraddoldeb mynediad a chyrhaeddiad gwledig), llinellau atebolrwydd cliriach rhwng y Bwrdd Partneriaeth, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Cyngor, ac adroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth hyfforddiant a chwmpas rhaglenni Spectrum.</p> <p>Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i adroddiadau yn y dyfodol nodi gofynion adnoddau (gan gynnwys gallu dadansoddol), cynnydd yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt gydag amserlenni, a sut mae adborth goroeswyr a chymunedau yn cael ei ddal a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau.</p> |  |
|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|